

LLEN Y LLANW Golygydd: Die Goodman

Mae'r beirdd mor hoff o'sôn am yr 'awen'. Yn wir mae nifer fawr ohonom yn gysurus gredu ein bod yn blant yr 'awen'. Ond mae rhai ohonom - yn feirdd a darllenwyr, yn sylweddoli nad yw bod yn giamstar ar y cynganeddion a'r mesurau yn golygu ein bod yn adnabod y wir awen. Yn gyntaf 011 credwn fod yr awen yn rhywbeth cyfrin a dychrynlyd o brin. Gwir yw fod y gyneddf a'r gallu i greu cerdd, gan ddefnyddio pob dyfais, modd a rhugledd yn fantais, yn wir yn anhepgor i bob prydydd. Mae niferoedd yn gallu bod yn ddiangof ac yn haeddu yr ansoddair 'gwyth' am fod eu hawduron yn ei 'medru hi'. Ond mae canu o dan ddylanwad 'yr awen' yn rhywbeth gwyrthiol a hollol unigryw.

Yr hyn a barodd, yn rhannol inni ysgrifennu y truth uchod yw y gred onest fod cerdd felly i'w cael yn ein colofn fach ni y mis hwn. Tynnaf fy hetdyn, dyn i'w hawdur. Cewch chi y darllenwyr benderfynu prun o'r cerddi yw honno.

Mae'r ddau englyn nesaf yn cyffwrdd a'r pryderon a'r tristwch a fu oherwydd yr haint difrifol a'n goddiwedddod yn ddiweddar.

Gobaith

Eli ar friw yw'r heulwen - a fendia

ôl fandal yr arien*

Wedi gwg adferwyd gwên,

Yn ebrwydd, glas yw'r wybren!

Llangian a Rhyddalug Elwyn Roberts

* barrug

Byddai fy nain yn disgwyl yn eiddgar am ganiad cyntaf y gog bob blwyddyn. Yr oedd y gân ddeunod yn cyhoeddi iddi hi fod y gwanwyn wedi dod a hithau wedi goroesi'r gaeaf bygythiol unwaith eto: "Mi glywais gwcc len" meddai Ceiriog.

Diolch

Welc, daeth arwydd heulog i hybu

eingobaithcymylog;

Er hynt ein helynt halog,

Yn y gwŷdd canodd y gog!

D.G.

Dyma gân o'r galon. Mae pendantrwydd di-ildio yn y 'deud' a rhyw agosatrwydd annwyl a gonest yn y mynegiant. Does raid i neb bryderu am burdeb oer orgraff, yn wyneb custrawen naturiol Gymreig fel a geirynta:

Bro Fy Mebyd

Yn Aberdaron dwi'n byw,

Lle sydd wedi cael ei greu gan Dduw.

Gyda'r traeth ar mynyddoedd yn brydfferth,
bois bach.

Nid af fi o'ma heb gythral ostrach.

Enlli a'i seintiau a garaf tu hwnt,

Ond mi gofai bob tro am ydwyllodrus Swnt.

Mynydd Mawr sydd yn annwyl gythreilig i mi-

Fe'm magwyd i, Wasi, ar dy lethrau di;

Porthor a'i dywod yn chwibanna, siâr Dduw

Pen Llŷn 'di'r lle gorau i Gymro gal byw.

1010Williams

Mae Elwyn Roberts wedi canu englyn gynnil am siom bachgen ym myd serch. Sylwn nad yw'n canu yn y confensiwn gorramantus fel y gwnai beirdd enwog y bymthegfed ganrif., Mae'r gormodiaeth lliwgar yn peri rywun deimlo mai ymorchestu yn eu doniau prydyddol Yr oeddynt, yn hytrach na chanu am eu

profiadau ym myd serch. Mae Elwyn Roberts yn canu am brofiad hallt hogyn. Mae ei gwpled clo yn neilhuol o effeithiol a'r trosiad am yr eithinen yn hynod o lwyddiannus: Ryw hen brydydd yn s&n am "Y Gwew" yn "canu ymhlith yr eithin pigog".

Siom

Geneth ddol, dal, walt-felen a'm hudodd,

a'm daliodd a'i heulwen;

Er ei ffurf ac aur ei phen

aeth heno yn eithinen.

Elwyn Roberts

Mae llyfr gan y Prifardd Elwyn Roberts ar fin cael ei gyhoeddi. Gyda lwc bydd yn barod cyn yr Eisteddfod eleni. Llyfr yn son am yr awdur yn fachgen ifanc yw, a chlywsom ganmol mawr ar ei gynnwys. Gallai yr englyn diweddaraf hwn o'i waith fod yn rhan o'r stori o ran ei gynnwys!

Roedd dydd cneifio erstmalwm, yn wir deil felly ar waetha'r peiriannau chwyrnellol pan fo'r hogiau yn tynnu cotiau gaeaf y defaid. Ond 'leni gwelsom eu cotiau gwlan yn cael eu troi'n amdo i'r defaid. Tynnodd Gareth lun trist ddychrynlyd o'r 'cneifio' di-drugaredd. Mae'r englyn yn cyfleu darlun diangof o'r ymdrech i drechu'r haint. Gwelwn y 'gwyndra moel' a'r 'rhith gymylau' a'r 'esgyn eira'. Englyn byth gofiadwy i deuluoedd y defaid coll.

Cneifio (2001)

'Leni, nid defaid heidia i lenwi'r

Corlannau, a'r gwyndra

Moel, yw rhith cymylau'r ha'

Erys dros esgryn eira.

Gareth Neigwl

Dyma ddau englyn o law y cynganeddwr rhugl o Abersoch. Er bod y digwyddiad erchyll wedi digwydd ers amser bellach, deil y briw i losgi yng nghalonau deiliaid y fro.

Aberfan

Yn Aberfan, glan y glo - y llithrodd

llethrau du ohono,

Oeraidd dyner wedd dano.

A wnaeth friw am byth i'r fro.

Alun Hughes

Dyma englyn eto a enillodd y wobr iddo yn Eisteddfod Pontrydfendigaid. Y testun oedd 'Nyth', a llongyfarchiad hwyr i Alun Hughes am ei gamp.

Man deori mwyn aderyn - o bwyth

Wnaed a'i big bob mymryn

Mewn gwiail a dail yn dyn

O olwg pob ryw elyn.

Alun Hughes

Wedi lladd Llywelyn (ein) Llyw Olaf torrodd ei elynion ei ben a'i ddwyn i Lundain. Cariwyd ef drwy'r strydoedd a mawr oedd y crechwen gorfoleddus o du'r lluoedd hanner-gwallgo wrth weld pen Llywelyn ar flaen picell o'u blaenau. Pen un oedd wedi bod yn ddraen ac yn ddychryn iddynt: A c meddai'r bardd: "Em holl fyf ar bicell fain" a'r cwpled-clo di-angof: Mae'n gweld a llygaid pell ei gof y milwyr - "y rhai gwyllt sy'n sawru'r gŵd" yn gorymdeithio'n drymdroed 'gam wrth gam' wrth ddilyn pen ein Llyw Olaf.

Clywch:
Gam wrth gam, saernia'n gof
Hanes sy'n gwaedu ynof.

Gorymdaith

Yn weindio ffyliaid Llundain,
Ein holl fyf ar bicell fain;
Yno'n grwn ac unig, roedd
I drawiadau ei strydoedd -
Arswyd cieidd-dra'r garsiwn
Llond lôn o Saeson a'u sôn:
Y rhai gwyllt sy'n sawru'r gŵd,
Hyrdiadau'n eu cerddediad.

Gam wrth gam, saernia'n gof
Hanes sy'n gwaedu ynof.

Gareth Neigwl

Dyma ddau bennill telyn o waith Mairwen Griffith. Maent yn enghreifftiau campus o'r canu hwnnw. Hoffwyd yn arbennig yr ail bennill. Mae yn darllen fel dameg neu wireb - yn enwedig y cwpled-clo:

Mae fy nghariad wedi digio,
Beth yw'r ots, mi gaf un eto;
Ond mor anodd datod cwltwm
Fu rhwng dau ynghlwm erstmalwm.

Mynd i'r ardd i dorri rhosyn
Roedd wrth ymyl coeden gelyn;
Rhwng y ddau mi ges fe mhigo -
Dysgu gwers wrth gael fy mriфо.

Mairwen Griffith

Diolch i'r beirdd am eu cyfraniadau. Pleser yw cael eu cyhoeddi yn Llanw Llŷn. Cofied y beirdd y bydd eu gwaith arglawr am byth wedi iddynt gael eu cynnwys mewn misolyn sydd yn eu lluoosi 2,000u weithiau!

Cofiwch am y rhifyn nesaf fydd yn un dwbwl - Gorffennaf ac Awst. Lôn Las, Mynytho - 740289.

Cymorth am ddim

Gwasanaeth Hawliau Tai Gwynedd

01248 671005

Mae Shelter Cymru yn cynnig cyngor ac eiriolaeth gyfrinachol a rhad ac am ddim os ydychyn:

ddigartref neu mewn perygl o golli eich cartref
cael problemau ôl-ddyleddion
cael trafferth i drwsio eich cartref
ceisio cael eich ailgartrefu
cael eich aflonyddu neu'n wynebu trais yn eich cartref
anfodlon ynglŷn â phenderfyniad budd-dâl tai
byw mewn tŷ sy'n orlawn neu'n anaddas.

Mae cymorth ar gael!

Pob dydd Mawrth, rhwng 12.30 a 3.30 y
pnawn yn Y Ganolfan Gyngori, 12 Stryd
Penlan, Pwllheli.

Am gyngor mewn argyfwng mae 'llinell
gymorth ddi-dâl 24 awr ar gael, sef
Shelterline - 0808 800 4444